



Y Newyddion Diweddaraf

Creu marchnadoedd ar gyfer adnoddau a ailgylchir

Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau

Mae'r Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau, WRAP, wedi cael rôl bwysig gan Lywodraethau'r DU i gydweithio â diwydiant, y sector cyhoeddus a'r gymuned ehangach, i hyrwyddo rheoli gwastraff cynaliadwy drwy greu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch a deunyddiau a ailgylchir, ac i fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag defnyddio'r deunyddiau hyn. Ein cenhadaeth yw hyrwyddo marchnadoedd mwy effeithlon a sefydlog ar gyfer deunyddiau a chynnyrch eilaidd.

Cefnogir WRAP, sy'n gwmni di-elw, cyfyngedig trwy warant, gan gyfanswm o gyfraniadau gwerth £55 miliwn dros dair blynedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Gweithrediaeth yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon, DEFRA a'r Adran Masnach a Diwydiant. Mae cyfraniad Llywodraeth y Cynulliad yn £1.65 miliwn dros dair blynedd.

Buddsoddi mewn Ailbrosesu

- Prif brosiect cyntaf WRAP oedd cystadleuaeth i gynnal cynnydd mewn capasiti ailbrosesu yn y diwydiant argraffu papur newyddion, a gynlluniwyd er mwyn galluogi **321,000 o dunelli metrig** ychwanegol y flwyddyn o bapurau newydd a chylchgronau i gael eu hailgylchu erbyn 2004. Yn ddibynnol ar ganiatâd Nawdd y Wladwriaeth, dyfarnwyd y contract hwn i **gwmni UPM Kymmene (UK) Ltd yn ei safle yn Shotton**. Mae WRAP wedi codi dros £15.5 miliwn gan gwmniau tirlenwi i gynnal y buddsoddiad hwn ac yn Ebrill 2002 dechreuodd gwaith ar y weithfan.
- Mae WRAP wedi cynnal tendr cystadleuol i ran-ariannu isadeiledd prosesu i ddargyfeirio **20,000 o dunelli metrig o boteli plastig wedi eu defnyddio** drwy gyfrwng peiriant dosbarthu poteli plastig awtomatig neu rywbeth tebyg. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda'r rhai fydd yn derbyn y grant, fwy na thebyg, a gwneir cyhoeddiadau yn y man.
- Mae WRAP yn darparu arian er mwyn cefnogi'r dasg o **gynyddu'r capasiti i ailbrosesu**

160,000 o dunelli metrig o wydr sydd wedi ei falu'n fân i'w ddefnyddio mewn cymwysiadau fel disodli sment ac fel cyfrwng fflwcs mewn briciau a chynnyrch glanweithiol. 23ain o fis Medi 2002 oedd dyddiad cau y rhan gyntaf o'r broses gystadleuol.

- Hefyd, ar hyn o bryd, mae WRAP yn asesu ceisiadau am **gymorth cyfalaf yn y sector coed**. Roedd y gystadleuaeth yn agored i'r sector byrddau panel, sef y farchnad fwyaf ar gyfer deunyddiau coed wedi eu hailgylchu, a phob cymhwysiad arall sy'n defnyddio coed wedi ei ailgylchu. Mae WRAP wedi asesu pob cais ac yn awr y mae'n trafod gyda nifer bychan o ymgeiswyr er mwyn cytuno ar arian y grant.

Ymchwil a Datblygu

- O ganlyniad i raglen Ymchwil a Datblygu WRAP, **buddsoddwyd £5.5m mewn 34 o brosiectau sylweddol ymchwil a datblygu**. Canolbwyntia'r ymchwil hwn ar brosiectau, sy'n agos i'r farchnad ac a allai arwain at ychwanegu 2.9 miliwn o dunelli metrig o ddeunyddiau i'w hailgylchu. Trwy gyfrwng y rhaglen hon mae WRAP wedi darparu cyfanswm costau prosiect o £169,000 i **Ganolfan Biogyfansawdd, Prifysgol Cymru**. Nod y prosiect yw datblygu system fonitro ar-lein i asesu unrhyw ddifwyno mewn gwastraff pren a gwella perfformiad defnydd crai yn y diwydiant byrddau panel.
- Mae **Conway Concrete Products Ltd**, Caerllion hefyd yn bartner prosiect yn y prosiect ConGlassCrete sy'n cael ei ariannu gan WRAP ac a ymglymerir gan Ganolfan Sment a Choncrid Prifysgol Sheffield. Nod y prosiect yw cynyddu'r maint o wydrach mewn cynnyrch concrit ac i gychwyn prosesau ardystio ar gyfer cynnyrch concrit sy'n cynnwys gwydr fel agreg a deunyddiau smentaidd ac ar gyfer defnyddio gwydr wedi malu'n fân mewn concrit. Mae Conway Concrete yn darparu cymorth ymarferol i'r prosiect a bydd yn derbyn cyngor a chefnogaeth dechnegol sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion a'u cynnyrch. Mae'n bosibl y caiff y model partneriaeth a ddatblygodd Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru gyda Conway Concrete ei ledaenu i'w ddefnyddio drwy'r DU.
- Mae WRAP hefyd yn rhan-ariannu gyda Biffaward brosiect gwerth £40,000 y mae **Prifysgol Caerdydd** yn ymgymryd ag ef sy'n ymchwilio i ymarferoldeb ailbrosesu plastig a geir mewn safleoedd tirlenwi mewn dull cost effeithiol.

Canfod Ansawdd

- Datblygwyd **Rhaglen Hyfforddi Rheolwyr Ailgylchu** ar gyfer staff awdurdodau lleol a rheolwyr ailgylchu. Mae'r cyrsiau preswyl sydd am ddim wedi'u hanelu at awdurdodau lleol, y sectorau preifat a chymunedol sy'n rheoli, datblygu neu'n hyrwyddo casgliadau o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu neu eu compostio. Cynhelir cwrs yng **Ngwynedd** rhwng **3ydd - 6ed Mawrth 2003**. Cynhaliwyd cwrs peilot yng Nghymru ym mis Medi i ystyried y gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol Cymru a'r Strategaeth Gwastraff Genedlaethol i Gymru.
- Mae WRAP hefyd wedi cyhoeddi **Adroddiad Casglu ar Ymyl y Palmant**, sy'n adolygu

Awdurdodau Lleol sy'n gweithredu cynllun o'r fath ar gyfer gwydr. Defnyddir y cynlluniau mwyaf llwyddiannus yn sail i ganllawiau arfer da i hyrwyddo cynnydd mewn casglu gwydr ar ymyl y palmant.

Caffael o fewn y Sectorau Preifat a Chyhoeddus

- Comisiynwyd ymchwil helaeth i'r farchnad ymhlith prynwyr yn y sectorau

preifat a chyhoeddus er mwyn darganfod eu **hagwedd tuag at ddeunyddiau wedi'u hailgylchu** a beth fyddai'n eu perswadio i brynu mwy ohonynt. Gwelwyd dwy neges amlwg. Yn gyntaf, mae **ansawdd yn peri pryder mawr**, ac yn ail, mae **diffyg gwybodaeth** am ddeunyddiau a ailgylchir yn effeithio ar gynnydd mewn caffael.

- Bydd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn rhoi arweiniad i waith WRAP yn y dyfodol ar gaffael, sydd wedi ei anelu at brynwyr sylweddol megis diwydiant a'r sector cyhoeddus.
- Mae WRAP wedi datblygu **patrwm ar gyfer contract i gyflenwi papur** i'w ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol sy'n gwerthu papur wedi ei adfer i ailbroseswyr papur i'w ddefnyddio fel deunydd crai. Nod y contract yw cael mwy o gyrff i dderbyn contractau hwy sy'n cynnwys elfen o bris y gellid ei ragfynegi. Drwy hyn gellir lleihau'r risgiau i anweddolrwydd y farchnad. Mae ar gael i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru.
- Cynhaliwyd Seminar Codi Ymwybyddiaeth yng Nghymru ym mis Medi 2002

ar ddefnyddio gwydr wedi ei ailgylchu mewn gweithrediadau i ffrwydro sgraffinyddion.

- Mae WRAP yn cefnogi Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth **osod targedau** i'r sector cyhoeddus ar gyfer prynu cynnyrch a deunyddiau sy'n cynnwys deunyddiau wedi eu hailgylchu.

Mecanweithiau Ariannol

- Lanswyd y Gwasanaeth Datblygu Busnes ar ddiwedd mis Ionawr 2002 i ddarparu **priodas rhwng sefydliadau cyllido a busnesau ailgylchu.**
- Mae'r Gwasanaeth yn awr **yn weithredol yn ceisio cynorthwyo busnesau yn y sector.** Ers i Swyddog Cyswllt Cymru ddechrau ar ei swydd, mae 15 o fusnesau (23% o gyfanswm y DU) wedi derbyn gwerthusiad o'i busnes; 7 (24% o gyfanswm y DU) wedi cael adolygiad o'u cynlluniau busnes; ac mae arian wedi ei geisio neu yn cael ei geisio ar gyfer 4 busnes (40% o gyfanswm y DU) yng Nghymru.
- Mae WRAP wedi cyflogi Cwmni Rheoli Asedau i ddatblygu **Cynllun Gwarantu Prydlesau.** Bydd y cynllun yn rhoi prydlesau gwarantedig ar fathau penodol o offer ar gyfer busnesau yn y

sector ailgylchu.

- Mae WRAP yn bwriadu lansio **Cronfa Ecwiti Beilot** ym mis Mai 2003. Defnyddir y gronfa i gynyddu'r buddsoddiad mewn busnesau sydd newydd gychwyn neu sy'n datblygu na allant sicrhau buddsoddiad o ffynonellau confensiynol.

Gwybodaeth am WRAP

- Dathlwyd pen-blwydd cyntaf **Ilinell gymorth WRAP 0800 100 2040** ym mis Tachwedd 2002. Fe'i lansiodd i ddarparu cyngor ymarferol i fusnesau ar y cyfleoedd mewn ailgylchu ac argaeledd deunyddiau a chynnyrch wedi'u hailgylchu. Mae'r Ilinell wedi cynorthwyo dros 300 o alwyr yn ystod 2002.
- Mae WRAP yn datblygu **Map Ailgylchu Pren** ar y we i gynyddu lefel ailgylchu pren drwy ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i gynhyrchwyr gwastraff pren, am wasanaethau casglu, a'r adnoddau prosesu ac ailgylchu sydd ar gael yn eu hardal.

Compost

- Mae WRAP wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'r Gymdeithas Compostio i droi'r safon sy'n bodoli yn y diwydiant ar hyn o bryd i Fanyleb ar gael i'r Cyhoedd y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI), a bydd yn gymwys ar gyfer compost wedi ei darddu o wastraff. Lansiodd **Safon Compost PAS y BSI** ar **13 Tachwedd**.
- Cynhelir seminar ar y cyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, **Compost- Sicrwydd Ansawdd a Safonau** ar 25ain Chwefror 2003.
- Mae WRAP wedi datblygu **Rhaglen Hyfforddi QMS** sydd wedi'i hanelu at gynorthwyo cynhyrchwyr compost i gyrraedd y safon a derbyn ardystiad. Cynhelir cwrs yng Nghymru ar 16fed Mawrth 2003.
- Cydnabuwyd **safle CERT, Sir Gaerfyrddin** fel Safle Arfer Gorau ac ymwelwyd â'r safle gan ddefnyddwyr terfynol, rheolwyr a rheoleiddwyr gwastraff awdurdodau lleol mewn ymweliadau arddangos a drefnwyd gan WRAP.

Gweithio gydag eraill yng Nghymru

- Mae **Swyddog Cyswilt WRAP yng Nghymru** wedi bod yn y swydd ers mis Mai 2002.
- Sefydlwyd perthynas ag Awdurdod Datblygu Cymru, Groundwork ac Arena Network drwy Gymru. Ymgwymerwyd â'r dasg o godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r gefnogaeth mae WRAP yn ei chynnig i fusnesau drwy gysylltu â swyddogion lleol sy'n gweithio i'r darparwyr cynnal busnes eraill hyn.

- Mae WRAP yn aelod o Grp Ymgynghori menter datblygu'r farchnad CWMre. Lluniwyd **Memorandwm Dealltwriaeth** hefyd rhwng WRAP a CWMre sy'n adeiladu ar natur ategol y gwasanaethau, y sgiliau a'r arbenigrwydd y gall y ddau sefydliad eu cynnig.
- Mae WRAP yn aelod o **Fforwm Gwastraff Cymru**.
- Cynhaliwyd **cyfarfod agored yng Nghaerdydd ar 4ydd Tachwedd 2002** i gyflwyno manylion o raglenni WRAP; y cynnydd a wnaethpwyd tuag at ei dargedau ailgylchu ; ac ymrwymo â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru ynglŷn â'n blaenoriaethau yn y dyfodol. Ymunodd Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru â ni, a thrafododd y pwysigrwydd o ddatblygu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch sydd wedi eu hailgylchu yng Nghymru.

Gellir cael ragor o wybodaeth am unrhyw rai o raglenni WRAP ar ein gwefan www.wrap.org.uk. neu drwy gysylltu â Sarah Downes, Swyddog Cyswllt Cymru ar 01443 845846 neu Sarah.Downes@wrap.org.uk

Phil Avery, Swyddog Materion Cyhoeddus ar 01295 819916 neu Phil.Avery@wrap.org.uk